

Cynllun Gwella Rhan I

Amcanion Gwella 2014/15

CYNNWYS

Cyflwyniad.....	2
Strategaeth Gymunedol Bro Morgannwg 2011- 2021.....	3
Cynllun Corfforaethol 2013 - 2017.....	4
Amcanion Gwella 2014 – 2015.....	5
Cyhoeddi ein Hamcanion Gwella.....	7
Adolygu ein cynnydd ac adrodd am gynnydd	7
Bod yn rhan ohoni	7
Amcan 1	9
Amcan 2	14
Amcan 3.....	17
Amcan 4.....	20
Amcan 5.....	23
Amcan 6.....	27
Amcan 7	29
Amcan 8.....	36

Cyflwyniad

Mae dyletswydd ar Gyngor Bro Morgannwg i ymgyrraedd at y safon orau o wasanaeth drwy wella ei ddarpariaeth a'i gwneud yn fwy effeithlon. Mae'n rhaid iddo wneud hyn nid yn unig y tu fewn i'r sefydliad ei hun ond trwy gydweithio â'i gydgynghorau, Llywodraeth Cymru a chyrff eraill y sector cyhoeddus a chymunedau'r Fro.


Ar ddechrau pob blwyddyn ariannol, bydd disgwyl i'r cyngor gyflawni ei ddyletswydd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 drwy gyhoeddi ei amcanion gwella. Yn y cynllun hwnnw, caiff trigolion wybod yn union beth sydd gennym mewn golwg ar gyfer y flwyddyn i ddod, a beth i'w ddisgwyl petai'r amcanion yn cael eu cyflawni.

Er bod y cynllun yn ymdrin yn benodol â'n prif amcanion gwella, byddwn yn parhau i geisio gwella meysydd eraill. Mae camau arfaethedig ar gyfer gwella ein gwaith o ddydd i ddydd wedi'u hegluro yn ein cynlluniau gwasanaeth. Ar gyfnod o gwtogi enbyd ar gyllidebau, y mae angen cyfeiriad pendant ar y cyngor a gallu i benderfynu ar flaenoriaethau, am na allwn wneud pob dim. Cewch weld ein holl [gynlluniau gwasanaeth](#) ar ein gwefan.

Mae'r cyngor wedi ymrwymo i gyflawni ei amcanion gwella yng nghyd-destun y gwerthoedd craidd y mae wedi'u mabwysiadu sef:

- **Darparu gwasanaethau da:** Credwn mewn darparu gwasanaethau o safon sy'n rhoi gwerth am arian, a byddwn bob amser yn ymdrechu i wneud hynny gan lynu wrth y gwerthoedd eraill. Byddwn yn cofleidio syniadau arloesol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i wella a darparu ar gyfer anghenion ein cwsmeriaid.
- **Gweithredu'n ddidwyll:** Bydd penderfyniadau'r cyngor yn agored ac yn ddidwyll, a byddwn yn newid dulliau gweithredu'r cyngor er mwyn cyflawni hyn.
- **Ymgynghori:** Cyn dod i benderfyniadau arwyddocaol, byddwn yn ymgynghori â'r unigolion, grwpiau a chymunedau y mae penderfyniadau o'r fath yn debyg o effeithio arnynt.
- **Galluogi:** Gwnawn ein gorau i helpu pob rhan o'r gymuned, gan gynnwys rhai na chawsant unrhyw wrandawriad yn y gorffennol, i gymryd rheolaeth dros eu bywydau eu hunain.

Dod â'r gwahanol elfennau ynghyd



Strategaeth Gymunedol Bro Morgannwg 2011- 2021

Mae dyletswydd ar Gyngor Bro Morgannwg o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 i lunio strategaeth gymunedol er mwyn hybu lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yr ardal a'i helpu i ddatblygu mewn ffordd gynaliadwy.

Mae Bwrdd Gwasanaethau Lleol Bro Morgannwg wedi llunio Strategaeth Gymunedol integredig a fydd yn pennu cyfeiriad y Fro yn ystod y deng mlynedd nesaf. Cytunwyd ar weledigaeth gyffredinol a nifer o ganlyniadau blaenoriaeth gyda'r bwriad o greu Bro sy'n:

- ddiogel, glân a deniadol, lle mae cyfle cynaliadwy i unigolion a chymunedau wella eu hiechyd, eu haddysg, eu sgiliau, eu sefyllfa ariannol a'u lles, a lle y
- mae teimlad cryf o gymuned a gallu ac ysgogiad gan grwpiau ac unigolion lleol i gyfrannu'n effeithiol tuag at gynladwyedd yr ardal yn y dyfodol.

Mae ein hamcanion gwella'n cefnogi'r canlyniadau hyn. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn cael ei gefnogi gan bum partneriaeth strategol sy'n cydweithio er mwyn cyflawni deg canlyniad blaenoriaeth:

1. Mae pobl o bob oedran yn cymryd rhan ymarferol ym mywyd y Fro, ac yn ddigon craf a hyderus i adnabod eu hanghenion fel unigolion ac fel aelodau o gymuned.
2. Rydym yn darparu ar gyfer anghenion amrywiol pobl leol drwy gynnig gwasanaethau a gwybodaeth sy'n canolbwyntio ar y cwsmer ac yn hawdd eu defnyddio.
3. Mae trigolion a sefydliadau'r Fro'n parchu'r amgylchedd lleol ac yn cydweithio er mwyn ateb her newid hinsawdd.
4. Mae pobl hŷn yn cael parch a chymorth i aros yn annibynnol, iach a gweithredol. Rhoddir cyfle cyfartal iddynt, a gallant fanteisio ar wasanaethau o safon sy'n darparu ar gyfer eu hanghenion amrywiol.
5. Mae gan blant a phobl ifanc y Fro ddigon o wybodaeth a chefnogaeth i ddefnyddio pob math o wasanaethau o safon, sy'n eu galluogi i fanteisio i'r eithaf ar bob cyfle mewn bywyd y tu fewn a'r tu allan i'w cymunedau.
6. Caiff pobl o bob oedran fanteisio ar gyfleoedd dysgu sydd wedi'u cyd-drefnu, ac y mae ganddynt sgiliau sy'n caniatáu iddynt sylweddoli eu potensial yn llwyr a goresgyn y rhwystrau sy'n eu cadw rhag cael swydd.
7. Rydym yn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol amddifadedd, ac yn sicrhau bod y Fro'n parhau i gael ei hadfywio, bod mwy o gyfle i unigolion a busnesau a bod safon yr amgylcheddau adeiledig a naturiol yn cael ei gwarchod a'i gwella.
8. Mae'r Fro'n gwneud y gorau o'i safle yn yr ardal drwy gydweithio â'i chymdogion er lles pobl a busnesau lleol a denu ymwelwyr, trigolion a buddsoddiad.
9. Mae trigolion ac ymwelwyr yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel, a'r Fro'n cael ei hadnabod fel ardal lle nad oes fawr o droseddu.

10. Mae llai o ddiffyg cydraddoldeb ym maes iechyd, a gall trigolion fanteisio ar y gwasanaethau, y wybodaeth a'r cyngor sy'n angenrheidiol ar gyfer gwella lles ac ansawdd bywyd yr unigolyn.

Wrth ddatblygu ein Strategaeth Gymunedol, buom yn ymgynghori'n helaeth er mwyn sicrhau bod cymunedau a sefydliadau lleol yn helpu i lunio ein canlyniadau blaenoriaeth. Cynhaliwyd cynhadledd Fforwm Gwasanaethau Lleol gan wahodd nifer o fudd-ddeiliaid amrywiol a chynnig gweithgareddau ar gyfer plant a phobl ifanc, a buom yn ymgynghori â thrigolion y Fro drwy Banel y Dinasyddion, Fforwm Strategaeth Pobl Hŷn a holiadur ar-lein.

Mae'r pum prif bartneriaeth yn gyfrifol am fonitro, adolygu a phwysu a mesur cynnydd, a byddant yn cyflwyno adroddiadau'n rheolaidd ar lwyddiannau a meysydd sy'n achosi pryder. Bydd arolwg yn cael ei lunio bob blwyddyn ar y Strategaeth, a'i gyflwyno i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'r prif bartneriaethau. Cyflwynir adroddiadau i'r partneriaethau'n rheolaidd ar gynnydd yn ôl y cynllun darparu a mesurau perfformiad perthnasol. Cynhelir Fforwm Gwasanaethau Lleol bob blwyddyn, er mwyn pwysu a mesur cynnydd a chynnig adborth. Cewch ddarllen [Strategaeth Gymunedol Bro Morgannwg](#) ar wefan y Cyngor.

Cynllun Corfforaethol 2013 - 2017

Ym Mawrth 2013, cyhoeddodd y Cyngor Gynllun Corfforaethol pedair blynedd (diwygiedig). Lluniwyd hwnnw'n unol â fframwaith y strategaeth gymunedol, ac y mae'n dangos yr hyn y bwriadwn ei wneud yn o gystal â chynnal gwasanaethau'r cyngor o ddydd i ddydd. Mae'r cynllun yn defnyddio'r strategaeth gymunedol fel man cychwyn ar gyfer sicrhau bod addewidion yn cael eu cyflawni a blaenoriaethau'r cyngor ar gyfer y dyfodol yn cael eu nodi.

Rydym wedi nodi wyth canlyniad blaenoriaeth, ac y mae nifer o amcanion wedi'u rhestru o dan bob un o'r rhain sy'n egluro'r prif ymrwymadau a gweithgareddau y byddwn yn ymgynghori atynt yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae'r cynlluniau gwasanaeth yn cynnwys cofnod manwl o'r camau gweithredu, yr adnoddau, yr amserlenni a'r atebolrwydd sydd ynghlwm wrth ddarparu gwasanaethau. Maent hefyd yn cynnwys dangosyddion cenedlaethol a lleol perthnasol sy'n ein helpu i fesur ein cynnydd tuag at gyflawni ein hamcanion gwella a sicrhau'r canlyniadau blaenoriaeth. Cewch weld y [Cynllun Corfforaethol](#) yn ei gryswth ar wefan y Cyngor.

Bydd llawer o wasanaethau'r Cyngor yn helpu i sicrhau mwy nag un o'r canlyniadau blaenoriaeth a restrwyd isod, ac y mae'n bwysig deall bod pob blaenoriaeth sy'n cael ei chyflawni'n gam tuag at gyflawni rhai eraill. Mae rhai themâu fel cynaliadwyedd, gwella iechyd, a sicrhau gwasanaethau hygyrch yn berthnasol i bob un o'n canlyniadau blaenoriaeth a ddiffinnir fel a ganlyn:

1. Gall dinasyddion y Fro fanteisio'n hawdd ar wasanaethau sy'n cael eu rheoli'n effeithiol ac yn darparu'n benodol ar eu cyfer. Gallant ymddiried yn ein ffordd o ddod i benderfyniadau, ac y maent yn falch o fyw yn y Fro.

2. Bydd plant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn eu cymunedau, yn cael eu cefnogi ac yn gwneud y gorau o'r cyfleoedd mewn bywyd sy'n codi'n lleol ac ymhellach i ffwrdd.
3. Mae gan ddinasyddion y Fro'r sgiliau, y wybodaeth a'r galluoedd sy'n angenrheidiol ar gyfer gwneud y gorau o bob cyfle.
4. Mae gan Fro Morgannwg economi ffyniannus sy'n cynnal cymunedau cysylltiedig a chynaliadwy.
5. Bydd y genhedlaeth bresennol o drigolion ac ymwelwyr a chenedlaethau'r dyfodol yn mwynhau amgylcheddau adeiledig a naturiol y Fro ac yn cymryd camau ymarferol i'w gwarchod a'u cynnal.
6. Caiff trigolion y Fro fanteisio ar dai fforddiadwy o safon a chyngor a chymorth wrth ymdrin â thai.
7. Mae dinasyddion y Fro'n heini ac yn iach ac yn gydradd o ran eu hamgylchiadau economaidd, ac o'u cynorthwyo a'u diogelu'n briodol, bydd aelodau mwyaf bregus ein cymuned yn cael manteisio i'r eithaf ar bob cyfle mewn bywyd.
8. Mae trigolion a dinasyddion y Fro'n ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel yn eu cymunedau.

Bydd gweithrediad y Cynllun Corfforaethol yn cael ei fonitro bob chwarter yn unol â threfniadau rheoli perfformiad cynhwysfawr y cyngor drwy nifer o fforymau, gan gynnwys y Tîm Rheoli Corfforaethol, pwyllgorau craffu a'r cabinet.

Bydd yr wyth canlyniad blaenoriaeth yn cael eu dwyn ymlaen a'u hymgorffori mewn cynlluniau gwasanaeth er mwyn sicrhau cysondeb ac unplygrwydd. Mae'r amcanion o dan y gwahanol ganlyniadau blaenoriaeth wedi'u cynnwys mewn cynlluniau gwasanaeth perthnasol, ac yn sail i'r prif gamau a ddaw â'r amcanion hynny i ben.

Bydd o leiaf un cam gweithredu'n cael ei roi mewn cynllun gwasanaeth am bob amcan yn y Cynllun Corfforaethol. Serch hynny, y mae cwmpas ambell i amcan - 'gwella ymgynghori' neu 'weithredu'r cynllun rheoli carbon' er enghraifft - yn ehangach na'r rhelyw, a bydd yn rhaid cynnwys nifer o wahanol gamau gweithredu mewn llawer o gynlluniau gwasanaeth. Mae hyn yn adlewyrchu rhychwant y gweithgarwch a fydd yn ofynnol er mwyn dod â'r amcan penodol i ben.

Mae gan bob amcan, aelod arweiniol o'r cabinet i'w hyrwyddo, cyfarwyddwr i sicrhau bod yr holl gamau gwella'n cael eu cyflawni a swyddog arweiniol sy'n gyfrifol am weithredu'r amcan.

Amcanion Gwella 2014 – 2015

Er y byddwn yn ymdrechu'n gyson i wella ein gwasanaethau, y mae'n bwysig i ni nodi nifer bach o feysydd ar gyfer sylw penodol, er mwyn cael dod â gwelliannau sylweddol yn gynt. Adwaenir y meysydd hyn fel amcanion gwella.

Mae ein Cynllun Corfforaethol (2013 - 2017) yn egluro blaenoriaethau'r cyngor ar gyfer y pedair blynedd nesaf. Mae'r amcanion gwella isod yn dangos y meysydd a ddewiswyd fel amcanion gwella i ddibenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Seiliwyd ein hamcanion gwella ar gyfer 2014-2015 ar:

- ganlyniadau blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol;
- ein cynnydd gyda'r amcanion gwella presennol;
- ein Cytundeb Canlyniadau ar gyfer 2013-2016;
- ein proses flynyddol ar gyfer cynllunio gwasanaethau;
- wybodaeth am berfformiad gwasanaethau'r cyngor ac ymateb cwsmeriaid pan fydd ar gael;
- ein risgiau corfforaethol;
- ddarganfyddiadau arolygon gwella ac adroddiadau eraill oddi wrth ein rheolyddion.

Mae darganfyddiadau gwaith ymgynghori cyfredol y cyngor hefyd wedi'u hystyried. Rydym wedi gwahodd rhai â diddordeb penodol yn y maes, gan gynnwys y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, cynghorau tref a chymuned a sefydliadau gwirfoddol i wneud sylwadau ar yr amcanion a gynigiwyd. Rydym wedi ymgynghori â'r cyhoedd ynglŷn â'r amcanion drwy arolwg ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Cafodd ein hamcanion gwella eu harchwilio a'u herio hefyd gan aelodau etholedig.

Penderfynwyd ar wyth amcan gwella ar gyfer 2014-2015 sef:

1. Sicrhau bod pobl leol yn haws eu cyflogi drwy roi gwell cyfle dysgu iddynt a'u helpu i feithrin sgiliau galwedigaethol a sgiliau byd gwaith.
2. Sicrhau bod lleoliadau ar gyfer pobl ifanc a phlant sy'n cael gofal yn fwy sefydlog a chynaliadwy.
3. Helpu mwy o bobl i ddod i fyw'n annibynnol.
4. Cynnal a gwella canol trefi'r Fro ar gyfer trigolion, ymwelwyr a busnesau.
5. Lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn swyddi nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant.
6. Lleihau'r amser y byddwn yn ei gymryd i ddarparu grantiau cyfleusterau pobl anabl ar gyfer plant a phobl ifanc.
7. Cynnal a herio ysgolion er mwyn codi lefel cyrhaeddiad disgyblion yng nghyfnodau allweddol 2, 3 a 4.
8. Gwella ein 'gwasanaeth trwsio'n ôl y galw' ar gyfer tenantiaid.

Pedwar o amcanion y llynedd (sef 2, 5, 6 a 7) a ddygwyd ymlaen eleni, a chawsant eu newid er mwyn dangos lle'n union y bwriadwn ganolbwyntio ein gwaith ychwanegol yn ystod 2014-15.

Mae'r wyth maes wedi'u hegluro'n fwy manwl ar dudalennau 10-37. Mae fframwaith, canlyniadau disgwylidig, camau gweithredu angenrheidiol a dull o fesur cynnydd wedi'u nodi ar gyfer pob amcan.

Byddwn yn gweithredu ein hamcanion gwella drwy gynlluniau gwasanaeth. Mae'r rhain yn cynnwys y camau a threfniadau a'r adnoddau, amserlenni ac atebolrwydd sy'n berthnasol i'r broses weithredu. Caiff y cynlluniau gwasanaeth eu monitro bob chwarter drwy nifer o fforymau, gan gynnwys pwyllgorau craffu a'r cabinet. Bydd adroddiad bob chwe mis ar ein cynnydd o safbwynt gweithredu'r amcanion hefyd yn cael ei gyflwyno i'r tîm rheoli corfforaethol a'r cabinet.

Cyhoeddi ein Hamcanion Gwella

Bydd yr amcanion gwella ar gyfer 2013 - 2014 yn cael eu cyhoeddi ar wefan y cyngor, sef www.valeofglamorgan.gov.uk cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl 1 Ebrill 2013 yn unol â'r gofynion statudol. Caiff aelodau o'r cyhoedd hefyd weld y wybodaeth hon yn swyddfeydd a llyfrgelloedd y cyngor a gwneud sylwadau ar yr amcanion drwy anfon neges i : improvements@valeofglamorgan.gov.uk

Mae ein cynlluniau gwasanaeth yn cynnwys y camau a threfniadau a'r adnoddau, amserlenni ac atebolrwydd sy'n berthnasol i'r broses o weithredu'r amcanion gwella. Bydd y [Cynlluniau Gwasanaethau](#) ar gyfer 2014 - 2015 i'w gweld ar ein gwefan o Ebrill 2014 ymlaen.

Adolygu ein cynnydd ac adrodd am gynnydd

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn rhoi dyletswydd arnom i gyhoeddi amcanion gwella. Mae'n bwysig i ni adolygu ein cynnydd a chyflwyno adroddiadau i aelodau etholedig a'r cyhoedd ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni, a'r hyn y dylid ei wella. Bydd pwyllgorau craffu'r cyngor yn archwilio cynnydd ein meysydd gwella bob chwarter gan ddefnyddio tystiolaeth o bob math yn ogystal ag adroddiadau ar berfformiad. Cewch weld ein [hadroddiadau chwarterol ar berfformiad gwasanaethau](#) a gyhoeddwyd ym Medi (chwarter 1); Rhagfyr (chwarter 2); Mawrth (chwarter 3); a Gorffennaf (chwarter 4) ar wefan y cyngor.

Yn ogystal â chyhoeddi ein hamcanion gwella ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, byddwn yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ddiwedd mis Hydref er mwyn rhoi darlun cyflawn o'n perfformiad yn ystod y flwyddyn flaenorol. Bydd hefyd yn egluro i ba raddau y llwyddwyd i sicrhau'r canlyniadau a oedd wedi'u bwriadu. Ail ran y Cynllun Gwella fydd honno. Cyflwynwn adroddiad ar ein perfformiad yn ôl amcanion gwella 2014-2015 yn Hydref 2015.

Bod yn rhan ohoni

Ein panel dinasyddion yw Barn y Fro, a thrwy ymaelodi â'r panel, cewch gyfrannu i'r ymgynghoriadau sy'n cael eu cynnal gan y cyngor a'i bartneriaid, y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, neu ar eu rhan.

Os oes gennych ymholiadau ac yr hoffech ymaelodi â Barn y Fro, dylech anfon neges i consultation@valeofglamorgan.gov.uk neu lenwi'r ffurflen fer ar-lein.

Bydd holl ymgynghoriadau cyfredol y cyngor yn cael eu cyhoeddi ar y tudalennau ymgyngori, a chewch wybod yn y fan honno sut i fynd ati i gyfrannu.

Cewch hefyd gyfrannu drwy fynychu pwyllgorau craffu'r cyngor sydd ar agor i'r cyhoedd. Mae'r broses graffu'n rhoi cyfle i'r cyhoedd fod yn rhan o weithgareddau'r cyngor. Cewch ofyn i bwyllgor craffu ystyried maes gwasanaeth neu fater penodol. Os ydych am wneud cais o'r fath, dylech lenwi'r Ffurflen Gais am Arolwg neu anfon neges at J. E. Rees yn Nhîm Gwasanaethau Craffu a Phwyllgora i gyfeiriad JERees@valeofglamorgan.gov.uk

Cewch gynnig amcanion gwella newydd neu wneud sylwadau ar y rhai presennol drwy anfon neges i'r cyngor i gyfeiriad: improvements@valeofglamorgan.gov.uk

Fframwaith ar gyfer Amcanion Gwella 2014/15

Amcan 1	Sicrhau bod pobl leol yn haws eu cyflogi drwy roi gwell cyfle dysgu iddynt a'u helpu i feithrin sgiliau galwedigaethol a sgiliau byd gwaith.
---------	--

Swyddog Arweiniol	Rob Thomas/ Jennifer Hill
-------------------	---------------------------

Fframwaith yr amcan hwn

- Economi ffyniannus yn y Fro sy'n cynnal cymunedau unedig a chynaliadwy yw un o'r prif ganlyniadau corfforaethol sydd gennym mewn golwg.
- Mae cryn dipyn o amrywiaeth economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol yn y Fro. Gwelwn fod cyfoeth wedi'i rannu'n anghyfartal oherwydd, er bod 5 o'r 78 Ardal Cynnyrch Ehangach Is yn y Fro (sydd i gyd yn Y Barri mewn rhannau o Gibbonsdown, Cadog, Cwrt and Castleland), ymhlith y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru (gweler Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2011); a bod 7 ardal arall (sydd hefyd yn Y Barri, mewn rhannau o Buttrills, Gibbonsdown, Castleland, Cadog a Chwrt) ymhlith y 25% o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru; y mae 41 o'r 78 Ardal Cynnyrch Ehangach Is (sef dros 50% o boblogaeth y Fro) hefyd ymhlith y 25% o ardaloedd lleiaf difreintiedig Cymru; ac y mae 21 o'r rheiny ymhlith y 10% lleiaf difreintiedig (sydd ar y cyfan mewn rhannau o Benarth, Llanilltud Fawr a'r Bontfaen – er bod ambell i lecyn yn Y Barri).
- Dangosodd Arolwg Poblogaeth Blynyddol 2012 i weithgarwch economaidd gynyddu'n rheolaidd o 18.1% ym Medi 2009 i 21.6% ym Medi 2012. Mae hyn fymryn yn is na chyfartaledd Cymru sef 22.3%. 12.8% o'r boblogaeth a oedd yn hawlio budd-daliadau yn Chwefror 2012 ac yr oedd 6.9% o'r rheiny'n hawlio budd-dâl analluogrwydd. Mae 7.7% o bobl o oedran gweithio yn y Fro heb gymwysterau. Mae hyn yn llawer is na chyfartaledd cenedlaethol Cymru (11%). 12.5% o'r boblogaeth sy'n meddu ar gymwysterau is na lefel 2, ac y mae hynny'n 2.6% yn is na'r 15.1% a gofnodwyd ar gyfer Cymru'n gyffredinol. Mae nifer yr oedolion yn y sir sy'n meddu ar gymwysterau uwch yn fwy na'r cyfartaledd cenedlaethol gan hynny, ac y mae gan 78.9% o'r boblogaeth gymwysterau lefel 2 neu rai uwch na hynny o'u cymharu â 73.9% yng Nghymru'n gyffredinol. Yn yr un modd, y mae gan 60.4% o'r boblogaeth gymwysterau lefel 3 o'u cymharu â 52.4% yng Nghymru'n gyffredinol, a 38.1% sydd wedi'u cymhwyso hyd at lefel 4 o'u cymharu â 31.5% yng Nghymru'n gyffredinol.
- Er bod mwy o amddifadedd yn Y Barri nag yng ngweddill y sir, fe'i gwelir yma ac acw hefyd yn y Fro wledig, ac y mae'n anodd manteisio ar wasanaethau yn yr ardaloedd hynny. Mae'n rhaid parhau i foderneiddio'r economi wledig.
- Yn ogystal â darparu nifer o raglenni cenedlaethol yn uniongyrchol y mae'r cyngor hefyd yn is-gontractwr sy'n gweithredu'r Rhaglen Waith yn lleol.

- Y cyngor yw'r corff sy'n arwain gweithrediad rhaglen Cymunedau'n Gyntaf yng Nghlwestwr Y Barri a Chynllun Datblygu Cymru Wledig yn lleol. Bydd y rhaglenni hyn yn gweithio ochr yn ochr â'i gilydd i helpu'r di-waith hirdymor ar draws y Fro drwy gynlluniau amrywiol sy'n cynnwys gwasanaethau llythrennedd a chyflogaeth. Drwy gydweithio â phobl leol yn y rhannau mwyaf difreintiedig o'r Fro'n bennaf, y mae'r cyngor am sicrhau bod cymunedau lleol yn cael manteisio i'r eithaf ar bob cynllun adfywio. Dau gynllun o'r fath sydd ar y gweill ar hyn o bryd yw Ardal Fenter Maes Awyr Sain Tathan/Caerdydd ac Ardal y Glannau'r Barri.
- Mae'r cyngor wedi ymrwmo i sicrhau bod pobl leol yn cael ymelwa ar bob cyfle am hyfforddiant a swyddi sy'n codi yn sgîl buddsoddiad lleol. Mae cwmnïau adeiladu sy'n gweithio ar brosiectau cyfalaf a ariennir gan y cyngor o dan gontract i recriwtio a hyfforddi pobl leol ar gyfer cynlluniau priodol.
- Er iddo gydnabod bod y rhan fwyaf o bobl a fu'n dilyn cyrsiau i oedolion yn llwyddo i ddysgu sgiliau newydd, barnodd Estyn (yn Archwiliad 2013) fod Partneriaeth Ddysgu Bro Morgannwg yn anfoddhaol o safbwynt sicrhau canlyniadau allweddol mewn addysg i oedolion am y rhesymau hyn:
 - roedd oddeutu hanner y dysgwyr wedi methu â dod i ben â'u cyrsiau'n llwyddiannus;
 - bu tueddiadau cyfraddau llwyddiant pob darparwr yn y bartneriaeth ym mhob ardal ddysgu'n anghyson yn ystod y tair blynedd ddiwethaf;
 - ni fydd dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau i oedolion yn y gymuned yn datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd digon da;
 - ni fydd rhai sy'n dilyn cyrsiau addysg sylfaenol yn datblygu sgiliau digon da ar lefelau 1 a 2;
 - nid oes cyfeiriad strategol cyffredinol i gynlluniau'r cwricwlwm;
 - nid yw'r ddarpariaeth yn amlwg yn cwrdd ag anghenion dysgwyr yn yr ardal;
 - mae'r addysgu'n aneffeithiol mewn oddeutu 40% o ddosbarthiadau;
 - nid yw'r cwricwlwm yn gydnaws â phroffil y gymuned ac ni fydd digon o ddysgwyr o grwpiau sydd heb eu cynrychioli'n iawn ym maes addysg yn cofrestru ar gyfer cyrsiau;
 - nid oes gan y bartneriaeth gynlluniau gweithredu na chynlluniau busnes eglur ar gyfer addysg i oedolion;
 - nid oes digon o brosesau yn eu lle i fonitro perfformiad y bartneriaeth yn effeithiol;
 - nid oes gan y bartneriaeth ddealltwriaeth ddigon eglur a chyfrannol o'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer darparu addysg i oedolion yn y Fro.
- Rydym wrthi'n cydweithio â phartneriaid er mwyn cael hyd i ddull mwy cyd-drefnus o drafod addysg i oedolion yn y gymuned a gallu cynnig addysg sy'n gydnaws â phroffil dysgu poblogaeth y Fro.
- Mae sawl agwedd ar ein cymdeithas a'n heconomi yn ddigidol erbyn hyn. Bydd hysbysebion a cheisiadau am swyddi, nwyddau a gwasanaethau'n cael eu trin yn y modd yma, a gwasanaethau cyhoeddus hefyd, o dipyn i beth, gan gynnwys budd-daliadau ac archwiliadau meddygol. Mae bod heb gyfarpar digidol yn dwysáu tlodi a dieithrwch cymdeithasol. Mae rhwng 12% a 25% o boblogaeth y Fro heb gyfarpar digidol a chan hynny'n methu â defnyddio gwasanaethau ar y rhyngwyd. Bydd helpu pobl i fentro defnyddio'r dechnoleg

newydd yn dipyn o her i'r cyngor yn ystod y blynyddoedd i ddod.

- Tipyn o her hefyd fydd ateb gofynion amrywiol gwahanol rannau o'r gymuned wrth i adnoddau brinhau. Mae addysg yn y gymuned, y gwasanaeth llyfrgelloedd a rhaglen Cymunedau'n Gyntaf i gyd yn chwarae rhan bwysig drwy gynnig hyfforddiant TG sylfaenol/cyfleusterau ar gyfer gweithredu ar-lein. Mae'r galw hefyd yn cynyddu wrth i'r llywodraeth symud yn fwyfwy tuag at ddarparu gwasanaethau ar-lein. Ar y llaw arall, y mae cwsmeriaid sydd eisoes yn hen lawiau ar ddefnyddio gwasanaethau ar-lein yn chwilio am fwy o gymwysterau felly. Mae'n rhaid i'r cyngor wneud mwy o ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn hyrwyddo ei wasanaethau, rhoi gwybodaeth i gwsmeriaid a chysylltu â chwsmeriaid.

Canlyniadau

- Bydd mwy o hyder gan rai sy'n chwilio am waith.
- Bydd swyddi ar gyfer y di-waith hirdymor.
- Bydd mwy o oedolion sy'n dysgu yn y gymuned yn cael eu hachredu.
- Bydd mwy o swyddi cynaliadwy.
- Bydd mwy o ddysgwyr o grwpiau blaenoriaeth ac o blith y rhai a ddosbarthwyd yn y dengraddau mwyaf difreintiedig yn dilyn cyrsiau addysg ac yn dysgu sgiliau.
- Bydd mwy o gyfle i rai sy'n chwilio am waith ddefnyddio TG a chael hyfforddiant ar-lein.

Pa gamau sy'n cael eu cymryd er mwyn gwneud gwahaniaeth?

- Helpu'r di-waith ers tro byd i ddod o hyd i swyddi drwy eu mentora, eu hyfforddi a'u helpu i chwilio am waith.
- Rhoi cymorth ychwanegol i'r di-waith mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf drwy eu helpu i fagu hyder, llunio CV a dysgu sgiliau cyfweiliad a thrwy gynnal ffeiriau swyddi.
- Sicrhau bod mwy o brentisiaethau ar gael gan y cyngor a'i gontractwyr a mwy o leoliadau profiad gwaith er mwyn helpu pobl o bob oedran i ddatblygu eu sgiliau a dod o hyd i waith. [CL15]
- Cydweithio â Llywodraeth Cymru a phartneriaid er mwyn gweithredu Rhaglen Adfywio Ardal Y Barri. [R9]
- Sefydlu a gweithredu Clwstwr Cymunedau'n Gyntaf ar gyfer Y Barri er mwyn gwella iechyd a lles y rhai sy'n byw yn yr ardal Cymunedau'n Gyntaf. [R11]
- Cwblhau'r Cynllun Datblygu Gwledig presennol a hyrwyddo Cynllun Datblygu Gwledig newydd [R13]
- Cysylltu â phrosiectau adfywio a buddsoddwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol er mwyn cael cynnig hyfforddiant a gwaith cynaliadwy o safon. [LS14]
- Cydweithio â dysgwyr aeddfed o bob oedran er mwyn cael gwella sgiliau a symud y rhwystrau i addysg a gwaith. [LS17]
- Ceisio denu mwy o bobl i gofleidio'r dechnoleg ddigidol drwy ehangu gweithgareddau llythrennedd gwybodaeth mewn llyfrgelloedd. [LS20]
- Cynllunio'r cwricwlwm mewn ffordd strategol sy'n gydnaws â phroffil y gymuned ac yn darparu ar gyfer anghenion dysgwyr 'blaenoriaeth'.
- Gwneud sgiliau hanfodol a llythrennedd digidol yn rhan gynhenid o'r cwricwlwm.
- Orlhain, monitro a chofnodi canlyniadau dysgwyr gan ddefnyddio data'r asesiad

cyntaf fel llinell sylfaen.

- Cynnal asesiad sgiliau sylfaenol a phrawf diagnostig ar gyfer pawb sy'n cofrestru ar gyrsiau sy'n parhau am fwy na 10 awr.
- Cydweithio â chymunedau 2.0, Cymunedau'n Gyntaf a'r gwasanaeth llyfrgelloedd er mwyn ehangu hyfforddiant 'Universal Jobmatch' a datblygu rhaglen cynhwysiant digidol.
- Hyfforddi staff datblygu ar gyfer defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.
- Codi safon addysgu drwy fonitro dosbarthiadau'n rheolaidd a gweithredu rhaglenni gwella cyrsiau.

Sut byddwn yn mesur y cynnydd?

Dangosydd	2011/12 Perfformiad	2012/13 Perfformiad	2012/13 Cyfartaledd Cymru	2013/14 Targed/ Perfformiad Chwarter 3	2014/15 Targed
Nifer cleientiaid Cymunedau'n Gyntaf sy'n cwblhau cyrsiau sy'n ymwneud â chyflogaeth.				100/65	180
Nifer cleientiaid Cymunedau'n Gyntaf sy'n dod o hyd i swyddi.				12/6	24
Nifer cleientiaid Cymunedau'n Gyntaf a ddywedodd eu bod yn fwy hyderus ynglŷn â chwilio am swyddi.				70/114	135
Nifer cleientiaid y Rhaglen Waith sy'n cwblhau cyrsiau sy'n ymwneud â chyflogaeth.				80/84	80
Nifer cleientiaid y Rhaglen Waith sy'n dod o hyd i swyddi.				200/181	160
Nifer y bobl leol a gafodd eu hyfforddi a'u cyflogi o ganlyniad i drefniadau recriwtio a hyfforddi wedi'u targedu sy'n cymryd rhan ym mhrosiectau adeiladu'r cyngor.				20 cyfwerth ag amser llawn	24 cyfwerth ag amser llawn
Nifer y rhai sy'n dod i ben yn llwyddiannus â chysiau Llythrennedd a Rhifedd achrededig i Oedolion.				Gosod llinell sylfaen	Heb ei osod
Nifer y rhai sy'n dod i ben yn llwyddiannus â chysiau Addysg yn y Gymuned achrededig i Oedolion.				Gosod llinell sylfaen	Heb ei osod
Nifer y rhai sy'n dod i ben yn llwyddiannus â chysiau SiSIE.				Ch3 = 55	Heb ei osod
Canran y rhai sy'n dod i ben yn	72%	73%	73%	Heb for ar	75%

Ilwyddiannus â chysiau Llythrennedd a Rhifedd achrededig i Oedolion.				gael hyd yn hyn	
Canran y rhai sy'n dod i ben yn Ilwyddiannus â chysiau Addysg yn y Gymuned achrededig i Oedolion.	73.4%	82%*	82%	Heb for ar gael hyd yn hyn	87%
Canran y rhai sy'n dod i ben yn Ilwyddiannus â chysiau SiSIE.	71%	65%	56%	Heb for ar gael hyd yn hyn	70%

* Bydd y ffigur diweddaraf oddi wrth Lywodraeth Cymru 'wedi'i wirio' ar ddiwedd Chwefror 2014.

Amcan 2	Sicrhau bod lleoliadau ar gyfer pobl ifanc a phlant sy'n cael gofal yn fwy sefydlog a chynaliadwy.
----------------	---

Swyddog Arweiniol	Phil Evans
--------------------------	-------------------

Fframwaith yr amcan hwn

- Mae'r cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod trefniadau ar gyfer plant sy'n cael gofal mor ddigyfnewid ag sy'n bosibl, ac yn anad dim, y mae am i leoliadau fod yn ddiogel ac yn sefydlog. Dengys ymchwil fod sefydlogrwydd yn llesol i blant ac y gall diffyg trefn danseilio eu cysur a'u hunan-barch. Serch hynny, bydd newid lleoliadau weithiau er lles gorau plentyn. Weithiau bydd y plentyn yn awyddus i symud, ac weithiau bydd yn rhaid iddo symud am resymau eraill. Beth bynnag am hynny, dylem wneud ein gorau bob amser i symud plant mewn ffordd drefnus os oes modd.
- Bydd y cyngor yn darparu ac yn trefnu amrywiaeth o leoliadau er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael ei leoli gyda'r bobl fwyaf addas. I lawer o blant, dod adref at y teulu ar ôl cyfnod yng ngofal yr awdurdod fydd y ffordd i sefydlogrwydd. Bydd rhai eraill yn ffynnu orau yng ngofal aelod arall o'r teulu neu gyfaill. Cael gofal tymor hir gan yr awdurdod neu deulu maeth, neu gael teulu newydd parhaol drwy gael eu mabwysiadu fydd y cyfle gorau i rai eraill gael gofal sefydlog. Mae modd trefnu gofal sefydlog hefyd drwy weithredu gorchmynion Gwarchodaeth Arbennig a Phreswyl.
- Er mai gofal sefydlog yw'r nod, wrth reswm, dengys data blynyddol fod rhai plant (er ychydig yn unig) yn dal i gael eu symud o leoliad i leoliad bob blwyddyn yn y Fro. Yn 2012/13, 11.7% o blant dan ofal a oedd wedi'u lleoli'n fwy na theirgwaith yn ystod y flwyddyn. Roedd y Fro wedi'i dosbarthu felly'n ail ar bymtheg yng Nghymru ac yn y chwarter isaf. Cyrhaeddodd y chwarter canol uwch yn ystod y ddwy flynedd flaenorol a chafodd ei lleoli'n 9^{fed} yn 2010/11 ac yn 2011/12. Yn ystod 2012/13, 21.7% o blant a oedd wedi newid ysgol o leiaf unwaith tra eu bod o dan ofal, a chafodd y Fro ei dosbarthu'n 22^{ain} yng Nghymru o safbwynt hynny. Roedd ei pherfformiad yn hynny o beth wedi'i gosod yn y chwarter canol uwch yn ystod blynyddoedd blaenorol a chafodd ei lleoli'n 10^{fed} yn 2010/11 ac yn 9^{fed} yn 2011/12.
- Mae'r mesur hwn yn cynnwys symud lleoliad am fod plentyn yn aflonydd yn ogystal â symud am mai dyna oedd wedi'i drefnu er mwyn ymgyrraedd o dipyn i beth at leoliad sefydlog. Dylid mesur perfformiad yng ngoleuni Strategaeth Gomisiynu'r Fro sy'n canolbwyntio ar ddod â phlant a leolwyd y tu allan i'r ardal yn ôl i'r Fro, ac yn cefnogi diddymu gorchmynion gofal, pan fo gorchmynion Preswyl a Gwarchodaeth Arbennig yn fwy addas. Ein panel lleoli aml-asiantaeth (sy'n cynnwys cynrychiolwyr o faes addysg) fydd yn goruchwyllo materion lleoli. Bydd hwnnw'n sicrhau bod pob dewis yn cael ei archwilio rhag i'r lleoliad fethu, a lles y plentyn fydd uchaf yn ein meddwl bob amser wrth gymeradwyo unrhyw leoliad a drefnwyd. Anghenion addysgol a lles y plentyn a'r angen am ei leoli'n barhaol fydd ein hystyriaeth bennaf.
- Bydd Bwrdd Diogelu Plant Lleol ar y cyd Caerdydd a Bro Morgannwg a

drefnwyd yn ddiweddar yn helpu i ysgogi newid a gwelliannau ac yn dod â chanlyniadau gwell i blant a phobl ifanc yng Nghaerdydd a'r Fro.

Canlyniadau

- Darparu mwy o leoliadau sefydlog.
- Sicrhau bod mwy o ofalwyr maeth cymeradwy gan y cyngor.
- Lleihau'r gost fesul plentyn mewn lleoliadau maeth yn gyffredinol.
- Cadw plant mewn lleoliadau yn y Fro/ dod â phlant yn ôl i leoliadau yn y Fro.

Pa gamau sy'n cael eu cymryd er mwyn gwneud gwahaniaeth?

- Trefnu i bob cais am lety neu am symud lleoliad gael ei ystyried a'i awdurdodi gan y Panel Lleoli.
- Cyfeirio pob plentyn sy'n cael gofal at y Panel Sefydlogrwydd er mwyn sicrhau bod cynlluniau priodol ar gael ar gyfer ei leoli'n barhaol cyn cynnal ail arolwg plentyn dan ofal.
- Symud ymlaen gyda Strategaeth Recriwtio Gofalwyr Maeth er mwyn cael bod yn sicr o daro'r targedau a gytunwyd.
- Archwilio lleoliadau allanol er mwyn sicrhau bod y lleoliadau'n ddigon sefydlog, a chwilio am blant dan ofal a leolwyd y tu allan i'r Fro a fyddai'n elwch o gael eu lleoli yn yr ardal.
- Hwyluso'r ffordd i grwpiau o blant a phobl ifanc bregus gael hyd i leoedd priodol i fyw yn arbennig rhai digartref, a rhai sy'n gadael gofal yr awdurdod. [CYP7]
- Cydweithio â Bwrdd Diogelu Plant Lleol, grŵp llywio diogelu'r cyngor ac ysgolion er mwyn cael cyflawni ein cyfrifoldebau diogelu, dod i wybod barn plant a gweithredu protocoliau sy'n ymdrin ag esgeuluso plant ac achub mantais rywiol ar blant. [CYP9]

Sut byddwn yn mesur y cynnydd?

Dangosydd	2011/12 Perfformiad	2012/13 Perfformiad	2012/13 Cyfartaledd Cymru	2013/14 Targed/ Perfformiad Chwarter 3	2014/15 Targed
Canran y plant yng ngofal yr awdurdod ar 31 Mawrth a oedd, yn ystod y 12 mis cyn hynny, wedi newid ysgol o leiaf unwaith tra eu bod yn cael gofal (ac eithrio o dan y trefniadau pontio).	9.9%	21.7%	13.7%	15% Ch3 = 11.90%	13%
Canran y plant a fu'n mynychu ysgolion cynradd tra eu bod yn cael gofal.	95.7	94.4	94.4	95%	95%
Canran y plant a fu'n mynychu ysgolion uwchradd tra eu bod yn cael gofal.	91.6%	89.0%	90.6%	91%	91%
Canran y plant yng ngofal yr	7.9%	11.7%	9.4%	10%	9%

Dangosydd	2011/12 Perfformiad	2012/13 Perfformiad	2012/13 Cyfartaledd Cymru	2013/14 Targed/ Perfformiad Chwarter 3	2014/15 Targed
awdurdod ar 31 Mawrth a gafodd eu lleoli deirgwaith neu'n amlach na hynny yn ystod y flwyddyn.				Ch= 6.91%	
Nifer y diwrnodau a dreuliwyd ar gyfartaledd y tu allan i'r ysgol gan blant dan ofal a waharddwyd o'r ysgol am dymor sefydlog yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol.	7.9	6.6	6.3	7	6
Canran yr ymweliadau statudol a oedd i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn ar gyfer plant dan ofal a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau.	99.7%	95.2%	83.0%	95% Ch3 = 95.29	95%
Canran y lleoliadau ar gyfer plant dan ofal a drefnwyd am y tro cyntaf yn ystod y flwyddyn yr oedd cynllun gofal ar eu cyfer o'r cychwyn.	100%	100%	89.1%	100% Ch3 = 100%	100%
Canran y plant dan ofal a oedd yn disgwyl eu hail arolwg (a gynhelir ar ôl y 4 mis cyntaf) yn ystod y flwyddyn ac yr oedd cynllun ar gyfer eu lleoli'n barhaol wedi'i drefnu erbyn dyddiad yr arolwg hwnnw.	95.4%	100%	91.7%	100% Ch3 = 95.45%	100%
Canran yr asesiadau iechyd ar gyfer plant dan ofal a oedd i'w cynnal yn ystod y flwyddyn a gawsant eu cynnal.	48%	60.8%	80.3%	70% Ch3 = 44.64%	65%

Amcan 3	Helpu mwy o bobl i ddod i fyw'n annibynnol.
----------------	--

Swyddog Arweiniol	Phil Evans
--------------------------	-------------------

Fframwaith yr amcan hwn

- Mae problemau poblogaeth sy'n heneiddio, diffyg arian cyhoeddus, costau cynyddol a disgwyliadau newidiol pobl sy'n gofyn am gymorth i gyd wedi creu mwy a math gwahanol o alw am wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion. Erbyn 2020, rhagwelwn y bydd cynnydd o 28% ym maint y boblogaeth yn y Fro sy'n 65 oed ac yn hŷn na hynny. Yn ystod yr un cyfnod, y mae disgwyl hefyd i'r cyngor wario llai'n gyffredinol ar wasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn golygu bod mwy fyth o angen am wasanaethau prydlon ac ymatebol sy'n darparu ar gyfer union anghenion a dewision pobl.
- Er mwyn datblygu mwy o wasanaethau cymdeithasol cynaliadwy ar gyfer oedolion, bydd angen cydbwysu gofal yn well o blaid cymorth yn y gymuned. Ein nod yw helpu mwy o bobl i fyw'n annibynnol yn eu tai eu hunain, drwy ddarparu gwasanaethau yn y gymuned a chymorth i ofalwyr a thrwy geisio galluogi pobl yn hytrach na'u cynnal â phecynnau gofal hirdymor.
- Yn 2012/13, 1,690 o bobl a oedd yn cael cymorth i fyw gartref sef ychydig yn llai nag yn ystod y flwyddyn flaenorol (1,899). 269 o bobl a gafodd gymorth Teleofal unigol (254). 394 o bobl hŷn a gafodd ofal preswyl/nyrsio (427). Cyfradd y cyfeiriadau am ofal fesul 1,000 o'r boblogaeth dros 75 oed, a ddalwyd yn ôl am resymau cymdeithasol, oedd 6.5 (7.9).
- Mae mwy o bobl o hyd yn manteisio ar wasanaethau Teleofal, gyda 569 o becynnau'n cael eu gweithredu erbyn hyn o'u cymharu â 486 yn 2012. Rydym hefyd wedi trefnu mwy o becynnau TeleV+ - sef 118 eleni sy'n 62 yn fwy nag yn ystod 2012. Mae mwy o waith yn cael ei wneud er mwyn annog rhagor o bobl i fanteisio ar y gwasanaethau hyn. Drwy benodi ymgynghorydd arbenigol Teleofal, yr ydym wedi gallu rhoi mwy o gymorth i dimau gwaith cymdeithasol sy'n ymwneud â'r pecynnau hynny. O ganlyniad, y mae gweithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol yn teimlo'n fwy abl bellach i gyfeirio cleientiaid at gyfarpar Teleofal, a llwyddwyd i arbed tipyn o gostau wrth beidio â defnyddio pecynnau gofal cymunedol drutach. Rydym wrthi'n llunio strategaeth gyffredinol ar gyfer dyfodol gwasanaethau Teleofal ar hyn o bryd ac yn bwriadu mynd ati gyda'n partneriaid i asesu'r sefyllfa.
- Tynnodd arolwg AGCC (2012) sylw at lwyddiant cynyddol Gwasanaeth Adnoddau Cymunedol y Fro o safbwynt arbed anfon cleifion i'r ysbyty'n ddiangen a chadw cleifion rhag dibynnu ar wasanaethau gofal cymdeithasol yn yr hirdymor, drwy ymyrryd yn gynnar a chynnig gwasanaethau ail-alluogi.
- Mae rhagor o dai a chymorth ychwanegol yn cael eu darparu, ac o ganlyniad, bydd mwy o bobl y Fro'n gallu byw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain o fis Gorffennaf ymlaen.
- Mae ein Strategaeth Gomisiynu ar gyfer Pobl Hŷn yn gynllun bras a fydd yn sicrhau bod pobl yn cael cymorth priodol yn y dyfodol ac yn gallu byw'n

annibynnol am gyhyd ag y bo modd.

- Rydym yn parhau i gydweithio'n ddiwyd â'n partneriaid, Cyngor Caerdydd, BIP Caerdydd a'r Fro, sefydliadau gwirfoddol a defnyddwyr gwasanaethau i weithredu model gofal Wyn. Bydd hwnnw'n sicrhau gwasanaethau di-dor drwy ymadael â'r model meddygol a darparu ar gyfer ymyrryd yn gyflym ac am gyfnod byr yn unig. Mae'r themâu a luniwyd yn gyntaf yn ystod ymgyrch Wyn bellach wedi'u hymgorffori mewn Fframwaith Drafft newydd ar gyfer Pobl Hŷn yn y Fro a chymunedau Caerdydd. Egwyddor sylfaenol y fframwaith yw cynllunio gwasanaethau mewn ffordd sy'n darparu ar gyfer anghenion unigolyn ac yn caniatáu iddo fyw'n annibynnol ac yn gyffyrddus yn ei gymuned am gyhyd ag y bo modd.
- Mae cynllun dementia'n cael ei lunio ar y cyd â Bwrdd Iechyd y Brifysgol a Chyngor Caerdydd.

Canlyniadau

- Mae pobl yn cael cymorth ymarferol i fyw mor annibynnol ag sy'n bosibl.
- Mae'n haws i bobl ar draws y Fro gael gwybodaeth a manteisio ar wasanaethau sy'n hybu iechyd y corff a'r meddwl.
- Mae pobl yn ymwybodol o fudd-daliadau a dewision ariannol.

Pa gamau sy'n cael eu cymryd er mwyn gwneud gwahaniaeth?

- Rydym yn sicrhau bod mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o dechnolegau cynorthwyol fel Teleofal sy'n helpu pobl hŷn a gofalwyr i reoli effaith a pheryglon afiechyd tymor hir. Ar ôl ad-drefnu Gwasanaethau Teleofal y tu fewn i Wasanaethau Oedolion, cynigiwyd y dylid adolygu swyddogaeth y tîm. Bwriadwn asesu'r maes ar y cyd â'n partneriaid, a bydd y gwaith hwnnw'n sylfaen i strategaeth Teleofal yn y dyfodol.
- Drwy ymgyrch aml-asiantaethol Wyn, yr ydym yn hwyluso'r defnydd o wasanaethau ail-alluogi ac adfer ar gyfer pobl hŷn mewn argyfwng. Cynigiwyd bod angen gwneud y gorau o'r Gronfa Cydweithio Rhanbarthol a'r Gronfa Gofal Canolraddol er mwyn cael adeiladu ar y gwasanaeth y bydd y Tîm Adnoddau Cymunedol yn ei ddarparu.
- Rydym yn cydweithio â'r Trydydd Sector a sefydliadau busnes er mwyn helpu pobl (gan gynnwys rhai sy'n dioddef o salwch sy'n gysylltiedig â dementia), i fwy mor annibynnol ag sy'n bosibl, drwy gynnig gwasanaethau ataliol yn y gymuned.
- Rydym wrthi'n sefydlu timau gofal cymdeithasol ac asesu iechyd a thimau rheoli gofal integredig ar gyfer ein holl wasanaethau i oedolion ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Bydd fframwaith asesu a rheoli gofal integredig sy'n darparu ar gyfer cyfeirio, sgrinio a dyrannu gwasanaethau'n gyflym yn cael ei gynllunio yn ystod 2014/15.
- Rydym yn cydweithio â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro er mwyn ehangu'r dewis o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y gymuned ac yn datblygu Ysbyty'r Barri fel canolfan ragoriaeth, a gwell systemau ar gyfer rhannu gwybodaeth yn sgîl hynny.

Sut byddwn yn mesur y cynnydd?

Dangosydd	2011/12 Perfformiad	2012/13 Perfformiad	2012/13 Cyfartaledd Cymru	2013/14 Targed/ Perfformiad Chwarter 3	2014/15 Targed
Achosion Teleofal sy'n weithredol ar hyn o bryd	199	179		200	225
Tele V	55	90		100	120
Tele V+					
Nifer y diwrnodau calendr a dreuliwyd ar gyfartaledd i ddarparu grantiau cyfleusterau ar gyfer oedolion anabl.	392 o ddiwrnodau	337 o ddiwrnodau	268 o ddiwrnodau	321 o ddiwrnodau Ch3 = 267 o ddiwrnodau	245 o ddiwrnodau
Nifer y bobl hŷn (65+) fesul 1,000 o'r boblogaeth a oedd dan ofal yr awdurdod mewn cartrefi gofal ar 31 Mawrth.	18.61	16.96	20.63	17 Ch3 = 16.39	16
Nifer yr achosion o ohirio trosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol a nodwyd fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed ac yn hŷn.	7.90	6.60	4.57	5.6 Ch3 = 6.81	5.5
Y ganran o'r oriau o ofal cartref y dylid ei dileu'n dilyn cyfnod o ail-alluogi drwy Wasanaethau Adnoddau Cymunedol y Fro.					Bydd angen gosod llinell sylfaen

Amcan 4	Cynnal a gwella canol trefi'r Fro ar gyfer trigolion, ymwelwyr a busnesau.
----------------	---

Swyddog Arweiniol	Rob Thomas
--------------------------	-------------------

Fframwaith yr amcan hwn

- Un o'r canlyniadau corfforaethol allweddol yw sicrhau bod gan Fro Morgannwg economi ffyniannus sy'n cynnal cymunedau cynaliadwy. Mae canol trefi'n rhan bwysig o adeiladwaith economaidd a chymdeithasol y Fro ac y mae'r angen am gefnogi canol trefi'n gwbl allweddol i'r weledigaeth ar gyfer adfywio Bro Morgannwg.
- Gŵyr y cyngor fod angen gweledigaeth a strategaeth eglur ar gyfer canol ei brif drefi, a'i brif fwriad wrth ddechrau lunio ei fframwaith canol trefi yn 2011 oedd creu canllaw ar gyfer dyfodol pum canol tref allweddol yn y Fro. Mae'r fframwaith a fabwysiadwyd yn Chwefror 2014 yn ymdrin â nifer o themâu cyffredinol sy'n berthnasol i bob canol tref yn y Fro – e.e. creu a marchnata delwedd; gwella a chynnal yr olwg ar y strydoedd a mannau cyhoeddus; hwyluso'r ffordd i ganol trefi a gwella arwyddion; manteisio ar agosrwydd Caerdydd.
- Bu canol trefi'r Fro lawn mor agored â phob man arall i effeithiau'r dirwasgiad economaidd a'r chwiw am godi datblygiadau manwerthu ar gyrion trefi yn ardal yr awdurdod ac ymhellach i ffwrdd. Er i ambell i amcan adfywio yng nghynllun corfforaethol 2013-17 fynd i'r gors oherwydd yr hinsawdd economaidd, y mae'r cyngor yn benderfynol o wneud rhagor o waith adnewyddu yng nghanol ei brif drefi wrth i'r economi adfywio.
- Mae gwaith yn cael ei wneud yn Y Barri i wella blaenau siopau ac ailgysylltu ambell i adeilad uchel yn y stryd fawr â'i dreftadaeth drwy sicrhau bod y lloriau uwch yn cael eu defnyddio unwaith eto. Rydym hefyd, yn yr un modd, yn gwella'r olwg ar y stryd ac yn denu pobl yn ôl i ganol y dref drwy ddarparu tai addas fel rhan o gynllun Ardal Adnewyddu Castleland (gweler Tŷ Crawshay yn Stryd Merthyr sydd newydd ei gwblhau).
- Yn y Fro wledig, y mae partneriaeth adfywio'r cyngor, Cymunedau Gwledig Creadigol, wedi cefnogi gwaith gwella yng nghanol trefi, ac y mae bellach yn cydweithio â budd-ddeiliaid ym mhob maes er mwyn cael sefydlu byrddau lleoedd penodol ac ysgogi gwelliant.
- Mae'n rhaid wrth gydweithrediad y sector preifat er mwyn gwella canol trefi. Mae uwchfarchnad newydd sbon gan Waitrose yng nghanol tref y Bont-faen erbyn hyn, er enghraifft. Yn Y Barri, y mae hen safle llys ynadon y dref, bellach yn cael ei ddatblygu ar gyfer codi tai'n ogystal ag adeiladau masnachol.
- Rydym wrthi hefyd yn datblygu Cynllun Gweithredu ar gyfer Cyrchfannau er mwyn cynorthwyo twristiaeth a fydd yn ymdrin â rheoli a gwella canol trefi fel rhan o'i gwmpas gwaith.
- Penodwyd Swyddog Datblygu Canol Trefi'n ddiweddar er mwyn cefnogi canol trefi ar draws y Fro gyda chymorth unigolion a sefydliadau fel manwerthwyr,

busnesau, sefydliadau'r sector cyhoeddus, grwpiau gwirfoddol a chymunedol sydd i gyd â diddordeb yng nghalon eu trefi eu hunain.

- Rhyw drydedd ran o'r dref bellach sy'n rhan o Glwstwr Cymunedau'n Gyntaf Y Barri, ac y mae'r clwstwr yn cynnwys canol y dref. Mae hyn yn cysylltu ag amcan 1 o'r cynllun hwn.

Canlyniadau

- Bydd canol trefi mwy hyfyw a bywiog.
- Bydd llai o fannau segur mewn unedau masnachol.
- Bydd mwy o fuddsoddi mewn adeiladau yng nghanol y dref gyda chymorth grantiau.
- Cwrdd â'r galw am fuddsoddi mewn tai.
- Gwella'r amgylchedd adeiledig.
- Bydd busnesau mwy hyderus.
- Bydd yr ardal yn fwy ffyniannus.

Pa gamau sy'n cael eu cymryd er mwyn gwneud gwahaniaeth?

- Gweithredu rhaglen ardal gwella masnach yng nghanol Y Barri.
- Chwilio am adnoddau er mwyn gwneud mwy i wella mannau cyhoeddus yn Y Barri.
- Gweithredu rhaglen gwella masnach neu raglen ddatblygu yn Heol Holton uchaf, Y Barri.
- Cydweithio â Llywodraeth Cymru a phartneriaid er mwyn gweithredu rhaglen Ardal Adfywio'r Barri. [R9]
- Llunio a gweithredu fframwaith ar gyfer dyfodol canol trefi Bro Morgannwg er mwyn denu buddsoddiad i'r ardaloedd hyn a'u gwneud yn fwy egniol a deniadol. [R10]
- Cwblhau'r Cynllun Datblygu Gwledig presennol a hyrwyddo cynllun datblygu gwledig newydd. [R13]
- Mabwysiadu a gweithredu Cynllun Gweithredu ar gyfer Cyrchfannau. [R17]
- Cydweithio â budd-ddeiliaid lleol ar brosiectau ar gyfer canol trefi e.e. sefydlu byrddau lleoedd, archwilio ardaloedd gwella busnes ac ati.
- Chwilio am adnoddau er mwyn gwella dulliau o reoli traffig yn High Street/Broad Street yn Y Barri.
- Cydweithio â budd-ddeiliaid allweddol er mwyn gweithredu'r Fframwaith Canol Trefi. [R10]

Sut byddwn yn mesur y cynnydd?

Dangosydd	2011/12 Perfformiad	2012/13 Perfformiad	2012/13 Cyfartaledd Cymru	2013/14 Targed/ Perfformiad Chwarter 3	2014/15 Targed
Canran yr unedau manwerthu gwag ar gyfartaledd ym mhrif ganolfannau siopa'r Fro.	7.90%	8%		Heb ei chofnodi eleni	7.8%
Canran yr unedau manwerthu	5.94%	10%		Heb ei	9%

gwag yng nghanol tref Y Barri, sef Heol Holton.				chofnodi eleni	
Canran yr unedau manwerthu gwag yn Y Bont-faen.	10.3%	2%		Heb ei chofnodi eleni	2.5%
Canran yr unedau manwerthu gwag yn Windsor Road, Penarth.	2.41%	2.5%		Heb ei chofnodi eleni	2.5%
Canran yr unedau manwerthu gwag yn Broad Street/High Street, Y Barri.	11.78%	11.10%		Heb ei chofnodi eleni	10.8%
Canran yr unedau manwerthu gwag yn Llanilltud Fawr.	5.17%	2.6%		Heb ei chofnodi eleni	2.5%
Nifer y blociau yn Heol Holton uchaf a gafodd gynnig grant ar gyfer gwelliannau.				Heb fod ar gael	4
Canran y trigolion sy'n barnu bod canol tref Y Barri'n gyffredinol yn weddol ddeniadol neu'n eithriadol o ddeniadol.					Bydd angen sefydlu llinell sylfaen

Amcan 5	Lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant.
----------------	---

Swyddog Arweiniol	Jennifer Hill
--------------------------	----------------------

Fframwaith yr amcan hwn

- Mae 'lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant' yn brif flaenoriaeth genedlaethol yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Mae'r strategaeth ar gyfer cyflawni hynny wedi'i hegluro yng Nghynllun Gweithredu Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid Llywodraeth Cymru 2011-2015. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru'r Fframwaith hwnnw yn Hydref 2013 er mwyn cael targedu'r bobl ifanc sydd mewn perygl o lithro i'r categori hwn a'r rhai sydd eisoes yn cael eu diffinio felly. Mae disgwyl i bob awdurdod lleol yng Nghymru weithredu'r Fframwaith Ymgysylltu o Fedi 2015 ymlaen.
- Byddwn yn cydweithio ag amryw o wahanol asiantaethau, gan gynnwys ysgolion, colegau, prifysgolion, darparwyr hyfforddiant a'r Ganolfan Byd Gwaith er mwyn lleihau nifer y bobl ifanc yn y categori hwn. Byddwn hefyd yn cydweithio'n agos â Gyrfa Cymru sy'n darparu gwasanaethau mewn ysgolion ar gyfer pobl ifanc sydd mewn perygl o lithro i'r categori dan sylw, a hefyd yn cynnig gwasanaeth dros y ffôn ac ar y we. Mae cael lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant, yn dibynnu i ryw raddau ar sicrhau bod nawdd cyson ar gael i bob math o wahanol asiantaethau. Bydd ffactorau cenedlaethol a rhyngwladol fel yr argyfwng ariannol byd-eang presennol hefyd yn cael cryn effaith ar nifer y bobl ifanc yn y categori hwn.
- Bu nifer y bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant yn disgyn yn gyson o flwyddyn i flwyddyn yn lleol ac yn genedlaethol. Mae hyn yn cyferbynnu'n eglur â'r ffigurau ar gyfer plant rhwng 19 a 24 oed sydd, oherwydd effaith andwyol yr argyfwng economaidd, yn parhau i godi nid yn unig ar draws Cymru ond ym mhob rhan o'r DU. Mae'n hanfodol bwysig felly i ni sicrhau bod gwell cyfle am waith a hyfforddiant gan bobl ifanc sydd ar fin pontio rhwng addysg amser llawn a byd gwaith. Yn y modd yma cawn ymyrryd i atal y cynnydd yn nifer y rhai dros 18 oed nad ydynt mewn addysg na gwaith nac yn dilyn hyfforddiant.
- Tynnodd arolwg Estyn 2013, sylw at y ffaith bod cyfran y dysgwyr dros 16 oed nad ydynt mewn addysg na gwaith nac yn dilyn hyfforddiant, fymryn yn fwy nag yng Nghymru'n gyffredinol. Mae hefyd yn llawer uwch nag y byddech yn ei ddisgwyl wrth ystyried bod lefelau amddifadedd yn y Fro'n gyffredinol yn gymharol isel. Barnodd hefyd nad oedd cynlluniau'r cyngor ar gyfer cadw plant a phobl ifanc mewn gwaith, addysg neu o dan hyfforddiant wedi bod yn ddigon effeithiol. Mae'r cyngor yn cydnabod hyn ac wedi llunio strategaeth ar y cyd â phobl a sefydliadau perthnasol ar gyfer plant a phobl ifanc yn y categori hwnnw, er mwyn cael ymdrin â'r broblem.
- Er mwyn cael ymyrryd yn effeithiol â sefyllfa pobl ifanc, a chynnig y cymorth cywir, y mae'n rhaid dod i wybod yn gynnar pwy'n union sydd mewn perygl o

lithro i gategori 'pobl ifanc nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant'. Mae'r ffordd ataliol hon o ymdrin â phroblemau wedi dwyn cryn ffrwyth wrth ymdrin â chyfiawnder ieuencid a phroblem merched yn beichiogi yn eu harddegau. Bu'r cyngor yn llunio offeryn i'w ddefnyddio i adnabod y broblem yn gynnar, a chaiff hwnnw ei ddefnyddio gan wasanaethau addysg, Gyrfa Cymru ac ysgolion i nodi'r rhai sydd yn anad neb mewn perygl o lithro i'r categori dan sylw. Bydd hefyd o gymorth i olrhain cynnydd pobl ifanc sy'n hŷn nag 16 oed.

- Ar hyn o bryd, y mae'r cyngor a'i bartneriaid yn archwilio dulliau o wella sgiliau sylfaenol pobl ifanc yn yr ysgol, ac o ddefnyddio nawdd gwasanaethau cymorth ieuencid i gadw pobl ifanc rhag llithro i'r categori hwn. Ni ddylid disgwyl, serch hynny, y daw ymwarded ar unwaith drwy ymyrryd yn gynnar. Nod y bydd yn rhaid i'r cyngor a'i bartneriaid ymgynghraedd ato o dipyn i beth dros gyfnod o amser yn hytrach, yw lleihau nifer y plant sy'n llithro i'r categori hwn ar ôl ymadael â'r ysgol. Canolbwynt ein gwaith ar hyn o bryd yw adnabod y rhai mewn perygl, cydweithio â hwy a'u monitro.
- Mae'r cyngor yn darparu ar gyfer cydweithio â phobl ifanc anodd eu cyrraedd drwy ddatblygu darpariaeth deithiol, defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a chefnogi pobl yn unigol.
- Bydd yn cynnal mwy o raglenni addysg amgen mewn ysgolion uwchradd ac arbennig. Bydd hefyd yn trefnu i weithwyr ymyrraeth gynnar gydweithio â phlant yn ystod adegau pontio cynradd ac uwchradd. Yn y modd yma, caiff ymyrryd i arbed pobl ifanc rhag llithro i gategori rhai 'nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant' cyn gynted fyth ag sy'n bosibl.
- Bu'r cyngor hefyd yn datblygu gwasanaethau cymorth ieuencid teithiol sy'n targedu'r ardaloedd lle y mae'r nifer mwyaf o bobl ifanc yn y categori hwn, ac yn cydweithio'n agos â'r Ganolfan Byd Gwaith er mwyn datblygu sesiynau cyngor am swyddi.

Canlyniadau

- Dod i wybod yn gynnar am ddisgyblion sydd mewn perygl o lithro i gategori 'pobl ifanc nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant', a chyfeirio gwasanaethau at y rhai mwyaf anghenus.
- Creu gwasanaethau cysylltiedig a fydd yn meithrin sgiliau cyflogaeth a sgiliau sylfaenol pobl ifanc yn y categori yma.
- Lleihau'r ganran o bobl ifanc nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant.
- Lleihau'r ganran o bobl ifanc sy'n ymadael ag addysg amser llawn yn 18 oed ac yn syrthio i'r categori yma.
- Dod i wybod yn gynnar am y rhai sydd mewn perygl o lithro i'r categori hwn, a rhoi cymorth penodol iddynt ar adegau pontio – e.e. wrth symud ymlaen at y ddarpariaeth ar gyfer rhai dros 16 oed.
- Sicrhau bod y ffigurau ar gyfer rhai sy'n llithro i'r categori yma ym mlwyddyn 11 a blwyddyn 12 yn aros yn isel.

Pa gamau sy'n cael eu cymryd er mwyn gwneud gwahaniaeth?

- Mapio pob darpariaeth sydd ar gael er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn cael cynnig symud ymlaen at addysg bellach neu swydd.

- Datblygu **Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru** â phartneriaid perthnasol.
- Sefydlu grŵp llywio ymyrraeth gynnar er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau sydd wedi'u targedu'n effeithiol, yn effeithlon ac yn rhoi gwerth am arian.
- Cydweithio â phrosiectau adfywio a chynlluniau buddsoddi ar gyfer adfywio er mwyn sicrhau bod cyfle i bobl ifanc fanteisio ar hyfforddiant a gwaith cynaliadwy o safon. [LS14].
- Cydweithio â phartneriaid er mwyn datblygu strategaethau priodol ar gyfer cysylltu â phobl ifanc a lleihau'r nifer sy'n llithro i gategori 'pobl ifanc nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant' cyn ac ar ôl eu 18 oed. [LS16]

Sut byddwn yn mesur y cynnydd?

Dangosydd	2011/12 Perfformiad	2012/13 Perfformiad	2012/13 Cyfartaledd Cymru	2013/14 Targed/ Perfformiad Chwarter 3	2014/15 Targed
Lleihau: y ganran o bobl ifanc ym mlwyddyn 13 nad ydynt yn ôl pob golwg mewn addysg na gwaith nac yn dilyn hyfforddiant.	7.7%	4.4%	5.1%	4.3%	4.2%
y ganran o bobl ifanc ym mlwyddyn 11 nad ydynt yn ôl pob golwg mewn addysg na gwaith nac yn dilyn hyfforddiant.	4.3%	3.9%	4.2%	3.8%	3.7%
Nifer y bobl ifanc sydd wrthi'n ymwneud â gweithwyr cymorth pontio.				40	45
Y ganran o bobl ifanc o'r deg ward yn y Fro lle y mae diweithdra ymhlith yr ifanc ar ei waethaf a gafodd ymweliad gan hyfforddwyr dysgu drwy'r ddarpariaeth deithiol.				100%	100%
Y ganran o'r rhai y cysylltwyd â hwy drwy'r ddarpariaeth deithiol sy'n mynd ymlaen wedyn i ymwneud â'r gwasanaeth er mwyn cael gwella eu rhagolygon am waith.				40%	40%
Y ganran o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed sydd mewn addysg neu waith neu'n dilyn				80%	81%

hyfforddiant.					
Y ganran o bobl ifanc 19 oed a fu yng ngofal yr awdurdod y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy sydd mewn addysg neu waith neu'n dilyn hyfforddiant.		55.6%	56.4%	50% Q3 = 42.1%	52%
Y ganran o ddisgyblion ysgolion uwchradd sy'n mynychu'r ysgol.	91.4%	92.8%	92.1%	93%	94%
Y ganran o ddisgyblion dan ofal a fu'n mynychu un o'r ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod ac a oedd eisoes yn 15 oed ar 31 Awst yn ystod y flwyddyn flaenorol, a oedd wedi ymadael ag addysg orfodol, hyfforddiant neu hyfforddiant mewn swydd heb unrhyw gymwysterau allanol cymeradwy.	0%	0%	5.7%	Targed = 0% blwyddyn academaidd 2012/13 = 0%	0%
Y ganran o ddisgyblion yn gyffredinol (gan gynnwys rhai yng ngofal yr awdurdod lleol) a fu'n mynychu un o'r ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod ac a oedd eisoes yn 15 oed ar 31 Awst yn ystod y flwyddyn flaenorol, a oedd wedi ymadael ag addysg orfodol, hyfforddiant neu hyfforddiant mewn swydd heb unrhyw gymwysterau allanol cymeradwy.	0.5%	0.1%	0.4%	Targed = 0.5% blwyddyn academaidd 2012/13 = 0.13%	0.13%

Amcan 6	Lleihau'r amser y byddwn yn ei gymryd i ddarparu grantiau cyfleusterau pobl anabl ar gyfer plant a phobl ifanc.
----------------	--

Swyddog Arweiniol	Rob Thomas
--------------------------	-------------------

Fframwaith yr amcan hwn

- Mae helpu pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain drwy ddarparu grantiau cyfleusterau pobl anabl yn gynt, a gweithredu'r polisi cartrefi hygrych, yn dal yn flaenoriaeth gan y cyngor.
- Byddwn yn darparu grantiau cyfleusterau pobl anabl yn gyflymach ar hyd yr amser. Mae ein perfformiad yn hynny o beth wedi gwella'n gyson yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf. Serch hynny, y mae'r cyngor yn dal yn y chwarter isaf o'i gymharu â chynghorau Cymru yn 2012/13 o safbwynt darparu grantiau cyfleusterau pobl anabl yn gyffredinol.
- O dan Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996, y mae dyletswydd statudol ar y cyngor i gynnig grantiau cyfleusterau pobl anabl er mwyn helpu pobl i fyw mor annibynnol ag sy'n bosibl.
- Mae'r galw am addasu tai'n sylweddol yn debyg o gynyddu wrth i nifer yr henoed yn y boblogaeth gynyddu, a datblygiadau meddygol ymestyn einioes dyn. Ochr yn ochr â'r galw cynyddol hwn, y mae'r pwysau cyson arnom i reoli cyllidebau cyfalaf a gwario llai ar wasanaethau o flwyddyn i flwyddyn.
- Gwariwyd mwy yn ystod 2013/14 ar asesu'r angen am addasu tai cleientiaid, er mwyn gwella'r gwasanaeth, a dylai ein perfformiad yn ystod 2014-15 dystio i hynny.
- Rydym wrthi'n llunio contract fframwaith ar hyn o bryd yn unol â'r ymarfer gorau er mwyn cael dod i ben â gwaith addasu'n fwy effeithiol.

Canlyniadau

- Mae 80% o'r rhai sydd wedi derbyn grantiau cyfleusterau pobl anabl yn fodlon ar y broses y byddwn yn ei dilyn er mwyn eu darparu.
- Mae 80% o'r rhai sydd wedi derbyn grantiau cyfleusterau pobl anabl yn dweud eu bod bellach yn teimlo'n fwy diogel ac annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.
- Gall pobl hŷn barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain am fwy o amser.

Pa gamau sy'n cael eu cymryd er mwyn gwneud gwahaniaeth?

- Gweithredu contract fframwaith i gontractwyr sy'n ymgymryd â gwaith addasu ar gyfer ymgeiswyr sy'n defnyddio gwasanaeth asiantaeth y cyngor.
- Adolygu'r newidiadau i'r broses ymgeisio er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth cwsmeriaid a safon y gwaith wedi gwella o ganlyniad.
- Helpu pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain drwy ddarparu grantiau cyfleusterau pobl anabl yn gynt a gweithredu Polisi Cartrefi Hygrych. [H11]

Sut byddwn yn mesur y cynnydd?

Dangosydd	2011/12 Perfformiad	2012/13 Perfformiad	2012/13 Cyfartaledd Cymru	2013/14 Targed/ Perfformiad Chwarter 3	2014/15 Targed
Nifer y diwrnodau a dreuliwyd ar gyfartaledd i ddarparu grantiau cyfleusterau pobl anabl.	399 o ddiwrnodau	346 o ddiwrnodau	271 o ddiwrnodau	321 o ddiwrnodau Ch3 = 282 o ddiwrnodau	250 o ddiwrnodau
Nifer y diwrnodau a dreuliwyd ar gyfartaledd i ddarparu grantiau cyfleusterau pobl anabl ar gyfer plant a phobl ifanc.	647 o ddiwrnodau	454 o ddiwrnodau	359 o ddiwrnodau	510 o ddiwrnodau Ch3 = 446 o ddiwrnodau	350 o ddiwrnodau
Nifer y diwrnodau a dreuliwyd ar gyfartaledd i ddarparu grantiau cyfleusterau pobl anabl ar gyfer oedolion.	392 o ddiwrnodau	337 o ddiwrnodau	268 o ddiwrnodau	321 o ddiwrnodau Ch3 = 267 days	245 o ddiwrnodau
Bodlonwydd cwsmeriaid ar wasanaeth grantiau cyfleusterau pobl anabl. Y ganran o gleientiaid sy'n teimlo bod y gwaith a wnaethpwyd o dan y cynllun grantiau cyfleusterau pobl anabl wedi peri iddynt deimlo'n fwy diogel ac annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.		94.12% 90.2%		80% 80%	80% 80%

Amcan 7	Cynnal a herio ysgolion er mwyn codi lefel cyrhaeddiad disgyblion yng nghyfnodau allweddol 2, 3 a 4.
----------------	---

Swyddog Arweiniol	Jennifer Hill
--------------------------	----------------------

Fframwaith yr amcan hwn

- Codi safonau mewn ysgolion, yn enwedig yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 oedd un o brif argymhellion archwiliad Estyn yn 2013.
- Drwy weithredu'r Strategaeth Gwella Cyfnodau Allweddol o 2012 ymlaen, yr ydym wedi sicrhau bod safonau'n codi yn 2013. Mae llawer o waith yn cael ei wneud o hyd yng nghyfnod allweddol 3 (yn unol ag amcan gwella 2013-14), ac y mae'r dangosyddion ar gyfer cyfnod allweddol 3 (sef plant 14 oed) yn dangos i safonau godi'n gyffredinol yn ystod blwyddyn academaidd 2012/13. Mae safonau wedi codi'n sylweddol ar lefel 5+ a lefel 6+ yn ôl pob dangosydd perfformiad. Mae'r gyfran o ysgolion a osodwyd yn y chwarteri meincnodi uwch neu uchaf am berfformiad ar lefel 5+ a lefel 6+ hefyd wedi cynyddu yn ôl pob dangosydd. Serch hynny, y mae angen codi safonau o hyd er mwyn symud ymlaen, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4.
- Bydd angen parhau i herio a chynnig cymorth ychwanegol yn gyson i'r ysgolion uwchradd a glustnodwyd ar gyfer eu gwella, os ydym am weld codi safonau'n gyson.
- Yng nghyfnod allweddol 2 (plant rhwng 7 ac 11 oed), y mae'r safonau wedi parhau i wella ar lefel 4+ yn ôl dangosyddion pynciau craidd Saesneg, Cymraeg, gwyddoniaeth a darllen ac ysgrifennu, darllen a mathemateg gyda'i gilydd, ond wedi dirywio ryw fymryn bach mewn Mathemateg. Mae'r gyfran o ysgolion a osodwyd yn y chwarteri meincnodi uwch neu uchaf am berfformiad ar lefel 4+ wedi cynyddu'n sylweddol yn ôl pob dangosydd perfformiad, ac eithrio mathemateg, a nododd ostyngiad. Mae'r safonau yng nghyfnod allweddol 2 wedi codi ar lefel 5+ yn ôl pob dangosydd perfformiad. Serch hynny, y mae'r gyfran o ysgolion a osodwyd yn y chwarteri meincnodi uwch neu uchaf am berfformiad ar lefel 5+ wedi gostwng ers 2012 yn ôl pob dangosydd perfformiad, ac eithrio mathemateg, a nododd gynnydd.
- Er mwyn codi safonau yng nghyfnod allweddol 2, bydd angen sicrhau bod cyfran uwch o ysgolion yn cael ei gosod yn y chwarteri meincnodi uwch neu uchaf bob blwyddyn am berfformiad ar lefel 4+ ym mhob pwnc, yn enwedig mathemateg. Bydd yn rhaid hefyd sicrhau bod cyfran uwch o ysgolion yn cael ei gosod yn y chwarteri meincnodi uwch neu uchaf bob blwyddyn am berfformiad ar lefel 5+.
- Mae'r awdurdod lleol wedi'i leoli'n uwch na 5^{ed} am eu perfformiad yng nghyfnod allweddol 3 mewn pob pwnc craidd (sef y safle isaf sy'n dderbyniol) gan ddefnyddio 'prydau ysgol am ddim' fel dangosydd procsi. Er bod hyn yn well o lawer nag yn ystod y flwyddyn flaenorol, y mae'n bwysig sicrhau bod pob ysgol uwchradd yn parhau i wella. Er mwyn codi safonau yng nghyfnod allweddol 3, y mae'n rhaid sicrhau bod cyfran uwch o ysgolion yn cyrraedd y chwarteri meincnodi uwch neu uchaf am berfformiad ar lefelau 5+, 6+ a 7 yn ôl pob

dangosydd (ac eithrio Cymraeg). Mae hyn yn bwysig tu hwnt o ran y dangosyddion Saesneg a mathemateg. Bydd disgwyl i bob ysgol uwchradd berfformio'n llawer gwell na'i hamcangyfrif ar gyfer prydau ysgol am ddim. Bydd disgwyl iddynt hefyd ragori ar amcangyfrif enghreifftiol Llywodraeth Cymru ac amcangyfrif llymaf oll Ymddiriedolaeth Deuluol Fischer (FFT) ar gyfer perfformiad a ragwelir ar sail perfformiad blaenorol. Bydd angen parhau i herio a chynnig cymorth ychwanegol yn gyson i'r ysgolion uwchradd a glustnodwyd ar gyfer eu gwella, os ydym am weld codi safonau'n gyson.

- Yng nghyfnod allweddol 4, y mae perfformiad mewn arholiadau TGAU mathemateg lefel 2 a gwyddoniaeth lefel 2 ac ar lefelau trothwy 1 a 2 wedi gwella ers 2012. Serch hynny, dirywio a wnaeth safonau mewn arholiadau TGAU Saesneg lefel 2/Cymraeg ac ar lefel trothwy 2+ ac yn ôl y dangosydd perfformiad ar gyfer pynciau craidd. O'u cymharu â rhai Cymru'n gyffredinol, yr oedd ffigurau'r Fro ar gyfer perfformiad ar lefel trothwy 2+ wedi codi 0.1% i 55.4%. Roedd y dangosydd ar gyfer pynciau craidd yn nodi cynnydd o 5% ac yr oedd cynnydd o 1.2% wedi'i nodi ar gyfer Saesneg/Cymraeg TGAU lefel 2. Bydd yr angen am wella perfformiad ar lefel 2+ yn bwysig i'n gwaith o herio a chefnogi ysgolion sydd wedi'u clustnodi ar gyfer eu gwella, ac yn sail iddo.
- Mae'r Rhaglen Cefnogi Ysgolion yn cyfuno rhaglenni cymorth cenedlaethol (h.y. Rhaglen Gymorth Genedlaethol ar gyfer Llythrennedd, rhaglen Athrawon Rhagorol Llythrennedd a Rhifedd) â dull o dargeddi ysgolion clustnodedig y Fro sydd wedi'i seilio ar broffil perfformiad yr awdurdod lleol. Y blaenoriaethau ar gyfer gwella perfformiad yng nghyfnodau allweddol 2, 3 a 4 yn ystod 2013 – 2015 oedd:
 - lleihau'r bwch rhwng cyflawniad plant sy'n cael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim;
 - gwella darllen, ysgrifennu a mathemateg fel pynciau ar wahân a chyda'i gilydd;
 - gwella cyrhaeddiad ym mhob pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 3;
 - gwella cyrhaeddiad yng nghyfnod allweddol 4 lefel 2+;
 - gwella cyrhaeddiad mewn arholiadau TGAU Saesneg a mathemateg;
 - sicrhau bod mwy o ddisgyblion yn llwyddo mewn arholiadau TGAU Saesneg a mathemateg fel ei gilydd;
 - gwella presenoldeb drwy'r Strategaeth Gallio.

Canlyniadau

- Gwella perfformiad disgyblion yn y cyfnod sylfaen a chyfnodau allweddol 2, 3 a 4 yn enwedig ar lefel +1.
- Gwella cyrhaeddiad mewn darllen, ysgrifennu a chyfrif fel pynciau ar wahân a chyda'i gilydd ym mhob cyfnod allweddol.
- Gwella cyrhaeddiad mewn arholiadau TGAU Saesneg a mathemateg a lefel 2 gynhwysol.
- Lleihau'r bwch rhwng perfformiad plant sy'n cael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim.

Pa gamau sy'n cael eu cymryd er mwyn gwneud gwahaniaeth?

- Gweithredu fframwaith her a chymorth rhanbarthol gan roi mwy o bwyslais ar y canlynol:
 1. Gwella perfformiad disgyblion ym mhob cyfnod allweddol sy'n cael prydau ysgol am ddim.
 2. Llwyddo i adnabod y disgyblion sy'n methu â pherfformio i safon yn y cyfnod sylfaenol mewn Sgiliau Mathemategol ac Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu'n llawer cynt nag arfer, yn enwedig y bechgyn.
 3. Llwyddo i adnabod y disgyblion sy'n methu â chyrraedd safonau lles a datblygiad personol a chymdeithasol (yn enwedig rhai sy'n cael prydau ysgol am ddim) yn llawer cynt yn ystod y cyfnod sylfaenol.
 4. Gallu asesu datblygiad personol a chymdeithasol a lles yn well yn y cyfnod sylfaenol, yn enwedig o safbwynt canlyniad 6.
 5. Dod o hyd i ddisgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni mewn Saesneg a mathemateg ac ar lefelau uwch, yn llawer cynt, yn enwedig disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim.
 6. Gwella perfformiad bechgyn ym mhob cyfnod allweddol yn y Gymraeg.
 7. Llwyddo i nodi'r diffyg cydbwysedd a pherygl tangyflawni sy'n gysylltiedig â rhyw, yn llawer cynt. Dod i ben â hyn drwy olrhain data cyrhaeddiad disgyblion unigol yn well, a gwneud gwell defnydd fforensig a diagnostig o'r data'n enwedig wrth drafod darllen, ysgrifennu a chyfrif fel pynciau ar wahân a chyda'i gilydd, a'u trafod ar lefel +1 ym mhob cyfnod allweddol.
 8. Gwella cyflawniad yn gyson yn holl ysgolion y Fro.
 9. Gwella systemau ysgolion er mwyn gwella 'cyflawni ar draws pynciau' ar bob lefel ym mhob cyfnod allweddol h.y. sicrhau bod disgyblion yn cyflawni mewn Saesneg a mathemateg fel ei gilydd.
 10. Gwella'r ffordd o ddysgu Darllen, Ysgrifennu a Chyfrif i blant a'r arweiniad yn y meysydd allweddol hyn ym mhob ysgol.
- Gweithredu'r Strategaeth Gallio'n llwyr ar y cyd ag ysgolion.
- Adolygu'r model gweithredu ar gyfer y Gwasanaeth Lles Addysg.
- Gwneud mwy o ddefnydd o bwerau ymyrraeth ffurfiol mewn ysgolion a glustnodwyd.
- Parhau i weithredu'r amserlen ar gyfer adolygu cynnydd ysgolion yn ffurfiol a chynnal cyfarfodydd adolygu cynnydd o dan arweiniad aelodau etholedig.
- Llwyd weithredu'r Rhaglen Cymorth Ysgolion a gomisiynwyd, sy'n cael ei hariannu â'r 20% o'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a gedwir yn ôl, ac sydd wedi'i seilio ar flaenoriaethau allweddol ar gyfer perfformio.
- Gweithredu'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gwella Ysgolion.
- Gweithredu'r Fframweithiau Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol.
- Cymryd rhan mewn cyfarfodydd adolygu her ranbarthol ffasiwn newydd a gynhelir gan Lywodraeth Cymru.
- Dechrau cynnal cyfarfodydd 'her ac arolwg ysgolion' rhwng cynghorwyr anghenion dysgu ychwanegol y cyngor ac Arweinwyr Systemau rhanbarthol ar gyfer ysgolion prif ffrwd sy'n meddu ar adnoddau.
- Cychwyn rhaglen arolygon ysgolion o dan arweiniad y cyngor a fydd yn pwysu a mesur ansawdd yr addysg a roddir i'n dysgwyr mwyaf bregus mewn ysgolion yng nghategoriâu C a D.

- Darparu'n rhanbarthol ar gyfer llywyddu asesiadau statudol athrawon yn well ar ddiwedd pob cyfnod allweddol

Sut byddwn yn mesur y cynnydd?

Dangosydd	2011/12 Perfformiad (blwyddyn academaidd 2010/11)	2012/13 Perfformiad 2012/13 (blwyddyn academaidd 2011/12)	2012/13 Cyfartaledd Cymru (blwyddyn academaidd 2011/12)	2014/15 Targed/ Chwarter 3 Perfformiad blwyddyn academaidd 2012/13)	2014/15 Targed (blwyddyn Academaidd 2013/14)	2015/16 Targed (blwyddyn academaidd 2014/15)
CA 2 Y gyfran o ysgolion a osodwyd yn y chwarteri meincnodi uwch neu uchaf am berfformiad yn ôl y dangosydd pynciau craidd (DPC) ar lefel 4+ .	50%	46%	Heb ei gofnodi. Mae Estyn yn gofyn am >50%	61%	75%	90%
DPC CA 2: pawb Y ganran o ddisgyblion a aseswyd ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, a gyrhaeddodd safon y Dangosydd Pynciau Craidd yn ôl Asesiad yr Athro: Prydau Ysgol am ddim + Prydau Ysgol am ddim -	81.05% 59.39% 84.43%	86.01% 72.28% 88.41%	82.58% 66.66% 86.65%	87.97% 72.73% 90.40%	90%	92%
CA 2 DYM gyda'i gilydd: bawb Y ganran o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2, sy'n cyflawni mewn Darllen, Ysgrifennu a Mathemateg (DYM) gyda'i gilydd.	75.05%	81.18%	76.61%	83.27%	85%	87%
Saesneg CA 2: pawb Prydau Ysgol am ddim + Prydau Ysgol am ddim -	84.66% 64.97% 87.74%	88.54% 76.24% 90.69%	85.18% 70.87% 88.86%	90.54% 77.54% 92.54%	92%	94%
Mathemateg CA 2: pawb Prydau Ysgol am ddim + Prydau Ysgol am ddim -	86.72% 71.07% 89.21%	90.92% 80.69% 92.72%	86.77% 73.71% 90.14%	90.39% 75.40% 92.80%	92%	94%
CA 3 Y ganran o ysgolion a osodwyd yn y chwarteri meincnodi uwch neu uchaf am berfformiad yn ôl y dangosydd pynciau craidd (DPC) ar lefel 5+ .	50%	26%	Heb ei gofnodi. Mae Estyn yn gofyn am >50%	63%	85%	87%

Dangosydd	2011/12 Perfformiad (blwyddyn academaidd 2010/11)	2012/13 Perfformiad 2012/13 (blwyddyn academaidd 2011/12)	2012/13 Cyfartaledd Cymru (blwyddyn academaidd 2011/12)	2014/15 Targed/ Chwarter 3 Perfformiad blwyddyn academaidd 2012/13)	2014/15 Targed (blwyddyn Academaidd 2013/14)	2015/16 Targed (blwyddyn academaidd 2014/15)
DPC CA 3: pawb Y ganran o ddisgyblion a aseswyd ar ddiwedd cyfnod allweddol 3, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, a gyrhaeddodd safon y Dangosydd Pynciau Craidd yn ôl Asesiad yr Athro: Prydau Ysgol am ddim + Prydau Ysgol am ddim -	71.88% 47.13% 76.30%	72.39% 43.20% 77.08%	72.53% 48.41% 77.99%	82.54% 55.72% 86.58%	85%	87%
CA 3 DYM gyda'i gilydd: Y ganran o'r holl ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3 sy'n cyflawni mewn Darllen, Ysgrifennu a Mathemateg (DYM) gyda'i gilydd.	65.86%	66.50%	67.32%	76.31%	78%	80%
Saesneg CA 3: pawb Prydau Ysgol am ddim + Prydau Ysgol am ddim -	78.75% 56.56% 82.75%	78.72% 53.88% 82.76%	79.33% 58.94% 83.94%	87.91% 69.15% 90.62%	90%	92%
Mathemateg CA 3: pawb Prydau Ysgol am ddim + Prydau Ysgol am ddim -	82.48% 63.93% 85.81%	83.13% 64.08% 86.28%	81.08% 61.86% 85.46%	88.03% 67.16% 91.27%	90%	92%
CA 4 Y ganran o ddisgyblion 15/16 oed sydd wedi llwyddo mewn o leiaf 5 o arholiadau TGAU a chael graddau A* - C neu raddau cyfatebol mewn pynciau galwedigaethol.	75.27%	79.63%	72.60%	82.61%	84%	86%
Y ganran o ddisgyblion 15/16 oed sydd wedi llwyddo mewn o leiaf 1 arholiad TGAU a chael gradd G neu'n uwch na hynny neu raddau cyfatebol mewn pynciau galwedigaethol.	96%	96.88%	Heb ei gofnodi.	97.9%	97%	99%
Y ganran o ddisgyblion 15/16 oed a gyrhaeddodd safon y dangosydd pynciau craidd.	54.01%	53.88%	48.87%	50.21%	55%	60%

Dangosydd	2011/12 Perfformiad (blwyddyn academaidd 2010/11)	2012/13 Perfformiad 2012/13 (blwyddyn academaidd 2011/12)	2012/13 Cyfartaledd Cymru (blwyddyn academaidd 2011/12)	2014/15 Targed/ Chwarter 3 Perfformiad blwyddyn academaidd 2012/13)	2014/15 Targed (blwyddyn Academaidd 2013/14)	2015/16 Targed (blwyddyn academaidd 2014/15)
Y ganran o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 a gyrhaeddodd lefel 2 Saesneg.	68.41%	66.25%	62.22%	65.58%	71%	73%
Y ganran o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 a gyrhaeddodd lefel 2 Mathemateg.	62.45%	61.19%	58.36%	62.34%	71%	73%
Y ganran o ddisgyblion a oedd eisoes yn 15 oed ar 31 Awst yn y flwyddyn flaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyrhaeddodd safon trothwy lefel 2 a llwyddo mewn arholiadau TGAU Saesneg neu Gymraeg Iaith Gyntaf a mathemateg, a chael graddau A*-C .	56.01%	55.31%	51.08%	55.42%	60%	65%

Amcan 8	Gwella ein 'gwasanaeth trwsio'n ôl y galw' ar gyfer tenantiaid.
----------------	--

Swyddog Arweiniol	Miles Punter
--------------------------	---------------------

Fframwaith yr amcan hwn

- Mae dyletswydd statudol ar y cyngor i wneud mathau penodol o waith trwsio'n unol ag adran 11 Deddf Landlordiaid a Thenantiaid 1985.
- Mae dyletswydd ar y cyngor hefyd i sicrhau bod gwaith trwsio'n cael ei wneud yn unol â deddfwriaeth 'hawl i waith trwsio'.
- Un o amcanion allweddol y cyngor yng Nghynllun Corfforaethol 2013-17 yw: 'Adolygu'r gwasanaeth cynnal a chadw tai a gwaith trwsio ymatebol, er mwyn nodi gwelliannau i'r gwasanaeth a chynyddu bodlonrwydd tenantiaid'.
- Mae archwiliad mewnol o'r gwasanaeth trwsio a gynhaliwyd yn ddiweddar wedi tynnu sylw at nifer o broblemau sydd angen eu datrys gan gynnwys:
 - lefelau cynhyrchu gwael;
 - arweiniad a rheoli diffygiol;
 - tuedd i gamdefnyddio'r system drefnu bresennol;
 - diffyg rheolaeth ariannol gadarn;
- Gofynnwyd i Bennaeth Gwasanaethau Tai ac Adeiladu lunio cynllun newid er mwyn datrys y problemau hyn.

Canlyniadau

- Sicrhau bod tenantiaid yn fwy bodlon drwy:
 - archwilio ansawdd y gwaith trwsio'n amlach a chodi safonau o ganlyniad.
 - drefnu mwy o waith trwsio a dod i ben yn amlach â'r gwaith a drefnwyd.
 - sicrhau bod y gweithlu'n fwy cynhyrchiol.
 - fynnu dod i ben â gwaith yn iawn y tro cyntaf.
 - reoli'r gyllideb ar gyfer gwaith trwsio'n well.

Pa gamau sy'n cael eu cymryd er mwyn gwneud gwahaniaeth?

- Mabwysiadu fframwaith rheoli perfformiad ar gyfer gwaith trwsio'n ôl y galw .
- Newid rôl y 'cynlluniwr' fel y bo'n cynnwys 'rhestru gwaith a chysylltu â thenantiaid a chleientiaid'.
- Sicrhau bod swyddogion cynnal a chadw'n gwneud mwy o waith yn dilyn archwiliadau.
- Cynnal arolygon dros y ffôn yn gyson er mwyn pwysu a mesur bodlonrwydd tenantiaid.
- Defnyddio cyfleusterau testun i roi gwybod i denantiaid am y trefniadau a wnaethpwyd ar gyfer gwaith trwsio.
- Cysoni cofnodion electronig dyddiol â thafenni amser.
- Cynnig hyfforddiant arwain a rheoli i bob rheolwr rheng flaen.
- Cynnig hyfforddiant rheoli ariannol i bob rheolwr rheng flaen.
- Datblygu a gweithredu cynllun hyfforddi ar gyfer staff rheng flaen sy'n ymwneud â gwaith trwsio'n ôl y galw.

Sut byddwn yn mesur y cynnydd?

Dangosydd	2011/12 Perfformiad	2012/13 Perfformiad	2012/13 Cyfartaledd Cymru	2013/14 Targed/ Perfformiad Chwarter 3	2014/15 Targed
Y ganran o denantiaid a oedd yn fodlon ar y gwaith trwsio terfynol.					90%
Y ganran o denantiaid a oedd yn fodlon ar y broses drwsio.					90%